

# PWY SY'N GYMWYS I DEYRNASU AR Y DDYNOLIAETH?

## *Nodyn i'r siaradwr:*

Gan bwysleisio niwtraliaeth gadarn Tystion Jehofah o ran gwleidyddiaeth y byd, eglurwch mewn modd ymarferol pam mae Teyrnas Dduw gymaint goruwch unrhyw lywodraeth ddynol. Dangoswch gymaint rhagorach yw galluoedd Iesu Grist o'u cymharu ag anallu llywodraethwyr dynol.

## **PWYSO A MESUR PA MOR EFFEITHLON YW LLYWODRAETHAU DYNOL** (3 mun.)

Mae'r sawl sydd ag uchelgais o fod yn arweinydd fel arfer yn ceisio profi ei gymwysterau naill ai trwy ymgyrch neu drwy rym

Pa mor effeithlon yw llywodraethau dyn wrth ymateb i ofynion eu dinasyddion?

Gwendid brenhiniaeth yw ei bod yn agored i ffaelecteddau'r sawl sy'n rheoli (*g90* 8/22 19-20)

Gwendid aristocratiaeth—llywodraethu gan y bendefigaeth, neu'r lleiafrif breiniol, neu'r dosbarth elite—yw fod y sawl sy'n etifeddu'r hawl i'r swydd yn gwneud hynny ar sail cyfoeth neu berthynas waed (*g90* 9/8 26-7)

Gwendid democratiaeth yw ei bod yn adlewyrchu cyfyngiadau'r bobl a'i hetholodd (Preg 7:20; Jer 10:23; *g90* 9/22 13-14)

Methiant llwyr fu unrhyw ffurf ar awdurdod a ddyfeisiodd dyn [Darllen Pregethwr 8:9]

## **YR HYN FYDD LLYWODRAETHU IESU GRIST YN EI GYFLAWNI** (16 mun.)

Mae Iesu wedi profi beth y gall ef ei gyflawni yn ei swydd fel Brenin

Gan gyferbynu'n llwyr â methiannau llywodraeth dyn, fe ddangosodd gwyrthiau Iesu fod ganddo'r adnoddau i ddiwallu anghenion y ddynoliaeth, a thrwy hynny rhoddodd ragflas inni o fendithion ei lywodraeth

### *Yr Economi*

Dan lywodraeth dyn mae lluoedd o blant yn marw o newyn bob dydd

Bydd Iesu Grist yn darparu digonedd o fwyd i bawb [Darllen Mathew 14:19-21]

Bydd llywodraeth y Deyrnas yn sicrhau cartref hyfryd i bob teulu

Fydd dim diweithdra; bydd gan pob un waith boddhaus (Eseia 65:21-23)

### *Medru Ymdopi adeg Trychineb*

Mae diffyg adnoddau yn cyfyngu ar yr hyn mae llywodraethau dyn yn medru'i wneud adeg stormydd geirwon

Gallai Iesu reoli'r gwynt a'r môr drwy gyfrwng ysbryd Duw [Darllen Marc 4:37-39]

Bydd yn rheoli grymoedd natur er budd y bodau dynol fydd dan ei lywodraeth

### *Gofal Iechyd*

Her anferth i unrhyw lywodraeth ydi ceisio sicrhau gofal iechyd digonol i'w deiliaid

Dangosodd Iesu fod awdurdod ganddo dros salwch [Darllen Mathew 15:30]

Bydd yn iacháu pob anhwylder ac yn dileu pob afiechyd—gan gynnwys salwch cronig a hyd yn oed pob poen a loes all ymyrryd â mwynhau bywyd (Eseia 33:24)

Bydd yn adfer asbri ieuencid i'r oedrannus (Job 33:25)

Does dim un arweinydd dynol all gystadlu â Iesu fel un sydd â'r nerth ganddo i adfer bywyd [Darllen Marc 5:38-42]

### *Amddiffyn*

Mae awdurdod grymus Iesu'n ymestyn hyd yn oed dros ysbryd greaduriaid uwchddynol [Darllen Mathew 8:16]

Ar orchymyn Iesu, ildiodd y cythreuliaid, a gollwng yn rhydd y bobl oedd wedi'u meddiannu ganddyn' nhw (*it-2* 167)

Mae cythreuliaid nid yn unig yn fwy nerthol na bodau dynol; maen' nhw hefyd yn cefnogi llywodraethau dynol (Dan 10:13; Luc 4:6; Ioan 14:30; Eff 6:12; 1Ioan 5:19)

Mae Iesu nawr yn amddiffyn ei ddeiliaid rhag dod dan ddylanwad cythreuliaid ac yn y dyfodol bydd yn dileu Satan a phob ysbryd aflan (Dat 20:10)

Wrth orchfygu gelynyon mawr dyn, bydd Iesu wedi cael ei ddefnyddio gan Jehofah i roi terfyn ar bob rhyfel (Salm 46:8, 9)

### *Yr Amgylchfyd*

Mae pobl yn pryderu'n fawr am ddirywiad yr amgylchedd (*g03* 11/22 4-8)

Bydd Duw yn grymuso Iesu i "ddinistrio'r rhai sy'n dinistrio'r ddaear" (Dat 11:18)

Bydd perthynas heddychlon rhwng dyn ac anifail yn dod yn rhywbeth real (Eseia 11:6-9)

Bydd y ddaear yn cael ei thrawsffurfio'n baradwys

Dyma'r fath o fendithion a ddaw yn eu llawnder gyda dyfodiad y Deyrnas Feseianaidd

**IESU GRIST—YN HYNOD GYMWYS I DEYRNASU DROS Y DDYNOLIAETH** (5 mun.)

Bydd Teyrnas Dduw drwy Grist Iesu yn llwyddo am nad oes iddi'r gwendidau sy'n gynhenid i reoli dynol

Cyfyng ydi gwybodaeth pob rheolwr dynol; mae "holl drysorau doethineb a gwybodaeth" gan Iesu (Col 2:3)

Mae rheolwyr dynol wedi'u cyfyngu gan amherffeithrwydd ac yn aml 'does ganddyn' nhw mo'r cymhellion iawn; mae Iesu'n "sanctaid, di-fai, dihalog, wedi ei ddi-doli oddi wrth bechaduriaid" (Heb 7:26)

Marw yw hynt rheolwyr dynol a daw olynnydd i etifeddu eu teyrnas; mae Iesu'n anfarwol heb angen olynnydd (Dan 2:44) [Darllen 1 Timotheus 6:15, 16]

Yn aml gwelir bodau dynol yn defnyddio'u grym er hunan les; ni ddefnyddiodd Iesu erioed y grym a roddwyd iddo gan Dduw er mwyn elw personol, ac ni ddefnyddiodd ei awdurdod i gamdrin eraill chwaith (Math 4:1-4; Rhuf 15:3)

**GWNEWCH EICH SAFIAD DROS Y DEYRNAS FESEIANAIDD** (6 mun.)

Mae llawer yn credu i Iesu Grist fodoli, ond ychydig sy'n rhoi ffydd ei fod nawr yn teyrnasu'n Frenin

Mae digonedd o dystiolaeth iddo eisoes feddiannu gallu mawr a dechrau teyrnasu yn y nef (*bh* 84-95)

Llesol iawn fyddai i chi gynyddu yn eich deall o'r ffeithiau hyn

Beth ddylem ni ei wneud o ran yr Un sy'n gymwys i deyrnasu dros y ddynoliaeth? [Darllen Salm 2:12]

Fe ddylem roi croeso cynnes iddo (*w04* 7/15 19-20)

Mae hyd yn oed brenhinoedd yn cael eu gorchymyn i ymddarostwng iddo (Salm 2:10)

Mynnwch ddysgu rhagor am lywodraeth Duw yn nwylo Crist Iesu, a helpu eraill i wneud hynny

Caniatêwch i fendithion Teyrnas lywodraethol Duw, a ddaw yn fuan ddod yn rhan o'ch profiad chi

(Glynwch yn agos at y deunydd a amlinellir, gan gadw at amser penodol pob adran. Does dim rhaid darllen pob adnod a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn' nhw. Gweler *Ministry School*, tt. 52-4, 116-19)